## BETH YW'R MANTEISION O GAEL GWASANAETH RANBARTHOL INTEGREDIG?

**TROSGLWYDDIADAU CYFLYMACH**

Bydd un pwynt cyswllt yn unig a gwasanaeth integredig ar draws Rhanbarth Dyfed yn sicrhau bod trosglwyddiadau ar draws ardaloedd, asiantaethau a rhwng elfennau gwasanaeth yn gyflymach.

**MYNEDIAD CYFLYMACH I WASANAETHAU**

Yn hytrach na defnyddio rhifau ffôn asiantaethau unigol, gall pawb gael mynediad at un pwynt cyswllt canolog - 03303 639997

**GWASANAETHAU GWELL**

Darperir DDAS gan 3 sefydliad sy'n gweithredu o fewn consortiwm. Mae'r asiantaethau hyn yn cynnwys Kaleidoscope, Drugaid a G4S. Mae gan yr asiantaethau hyn arbenigedd a gwybodaeth arbenigol ac maent wedi dod at ei gilydd er mwyn darparu gwasanaethau arloesol ac effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws Sir Gâr, Sir Benfro a Sir Ceredigion.

Mae gan DDAS (ar y cyd gyda gwasanaeth pobl ifanc Choices) bws du mawr. O'r bws hwn, rydyn ni'n cynnig gwasanaethau lleihau niwed ac ymgyrchoedd gwaith allanol. Mae'r bws yn caniatáu DDAS i wasanaethu defnyddwyr ar draws yr ardal. Gofynnwch weithiwr DDAS neu Dewisiadau am amserlen y bws neu rhowch eich bawd i fyny wrth i ni yrru heibio!

Ariannir DDAS gan Fwrdd Cynllunio Ardal Dyfed, sef partneriaeth rhwng sawl asiantaeth gan gynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Sir Ceredigion Sir Gâr, Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Mae DDAS yn gweithredu o amrywiaeth eang o ganolfannau lleol ledled Sir Gâr, Sir Benfro a Sir Ceredigion. Rydym hefyd yn gweithredu o fewn lleoliadau cymunedol ac yn cynnig gwasanaeth allgymorth. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r lleoliadau yn eich ardal chi cysylltwch â ni drwy'r rhif ffôn unigol:

**03303 639 997**

**confidential@d-das.co.uk**

**DDAS**

**Sir Gaerfyrddin** – 1-3 Stryd Vaughan, Llanelli, SA15 3TY

**Ceredigion** – 25 Rhodfa'r Gogledd Aberystwyth SY23 2JN

**Sir Benfro** - Llawr Cyntaf, Tŷ Allied, Ebenezer Row, Hwlffordd, SA61 2JP

I gael gwybodaeth tu allan i oriau gwaith arferol, cysylltwch â:

dan 24/7

**0808 808 2234**

barod

Kaleidoscope

G4S

# DDAS

Gwasanaeth holl gynhwysol ar gyfer gamddefnyddio sylweddau yn rhanbarthau Sir Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro.

Mae DDAS yn darparu gwasanaethau i:

**Ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder troseddol**

**Teuluoedd, partneriaid, gofalwyr a ffrindiau defnyddwyr cyffuriau ac alcohol**

**Gweithwyr proffesiynol o sefydliadau megis meddygon teulu a staff eu meddygfeydd, gweithwyr prawf, gwasanaethau cymdeithasol, staff mewn ysbytai, yr heddlu a'r staff a gyflogir o fewn y gwasanaethau cymorth tai ac asiantaethau gofal cymdeithasol eraill.**

Mae gwasanaeth DDAS yn darparu llinell ffôn cyswllt unigol ar gyfer atgyfeiriadau a chyngor. Mae un pwynt cyswllt ar gael i'w ddefnyddio gan ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Dylai pob atgyfeiriad ddod drwy'r gwasanaeth hwn.

**confidential@d-das.co.uk**

## MAE DDAS YN CYNNIG Y GEFNOGAETH AC YMYRIADAU CANLYNOL AR GYFER OEDOLION SYDD Â CHAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU:

## YMGYSYLLTU

- Ymyriadau Byr ar gyfer defnyddio cyffuriau ac alcohol
- Cyngor lleihau niwed a phigiadau diogel
- Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau
- Mynediad Agored – dewch i mewn heb apwyntiad
- Un pwynt cyswllt yn unig
- Hyfforddiant a darpariaeth Naloxone
- Mynediad i brofion firysau a gludir gan waed, brechiadau a thriniaeth
- Bws gwaith allanol a lleihau niwed
- Hybu iechyd
- Adnoddau cefnogaeth ar-lein a deunyddiau Bibliotherapi
- Gwaith grŵp ysgogiadol

## TRINIAETH

- Mynediad i therapi ddewis arall i opiadau
- Pecynnau triniaeth sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer pob cyffur ac alcohol, gan gynnwys sylweddau seicoweithredol newydd
- Ymyriadau therapiwtig ar sail tystiolaeth (Therapi Rheoli Ymddygiad, Yfed Dan Reolaeth / Therapi Rhwydwaith Ymddygiad cymdeithasol / Cyfweld Ysgogiadol/ therapi gwella ysgogiadol, Hyfforddiant i rieni a gofalwyr
- Cefnogaeth i bobl eraill sy'n poeni
- Mynediad i wasanaethau firysau a gludir gan waed
- Gwaith grŵp a therapïau grŵp
- Hybu iechyd gan gynnwys cyngor ar iechyd rhywiol ac atal cenhedlu

## GWASANAETH ADFER

- Pecynnau cymorth ôl-ofal dwys
- Atal Ailwaelu Strwythuredig
- Gweithgareddau dargyfeiriol
- Cefnogaeth gyda rhaglenni gwirfoddoli, cyflogaeth a hyfforddiant
- Adnoddau adferiad ar-lein
- Cymorth Cilyddol
- Digwyddiadau adferiad ar benwythnosau a gyda'r nos

## GWASANAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL

- Atgyfeirio arestio mewn dalfeydd heddlu mewn achosion cyffuriau ac alcohol
- Rheolaeth Integredig i Droseddwyr
- Gwasanaeth Cyswllt Prawf
- Ymyriadau Llys Statudol:
- Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau
- Gofyniad Triniaeth Alcohol
- Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu
- Cyswllt Carchardai, gofal drwy'r broses a gwasanaethau chyfeirio

## YMRWYMIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH

Mae DDAS yn annog defnyddwyr y gwasanaeth i gymryd rhan mewn cynllunio, darparu ac asesi'n gwasanaethau. Os hoffech chi gymryd rhan mewn ffurfio DDAS, rhowch wybod i'ch gweithiwr.

## CEFNOGAETH I DEULUOEDD A GOFALWYR

Gall teuluoedd ac anwyliaid y bobl sy'n defnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, angen cymaint o gefnogaeth ag y defnyddwyr sylweddau eu hunain. Gall hyn gynnwys y teulu uniongyrchol, gofalwyr, cymdogion, ffrindiau, staff cymorth ac unrhyw un arall yn y rhwydwaith o amgylch y sawl yr effeithir arno. Rydym yn cynnig pecynnau triniaeth cynhwysfawr i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr, gan gynnwys:

- PACT (hyfforddiant i rieni a gofalwyr)
- Cefnogaeth Strwythuredig
- Cyngor a chymorth dros y ffôn
- Cefnogaeth cyfoedion mewn grŵp
- Cydgymorth

Lle bo'n ymarferol, mae DDAS yn annog i bobl eraill sy'n poeni i fod yn rhan o'r rhaglen cymorth ar gyfer y defnyddiwr sylweddau.

## HYFFORDDIANT A CHYNGOR PROFFESIYNOL

Mae DDAS yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i staff iechyd ac amrywiaeth o asiantaethau proffesiynol sy'n gweithio gyda defnyddwyr sylweddau. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant sylfaenol ar ddefnyddio sylweddau
- Ymyriadau Byr ar gyfer defnyddwyr sylweddau
- Cyngor, gwybodaeth a chanllawiau am sylweddau penodol
- Cefnogaeth ac ymgynghoriaeth parhaus

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae DDAS yn gweithio ar y cyd gyda'i bartneriaid i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Gyda chaniatad y defnyddwyr i rannu gwybodaeth, cyfeirir staff DDAS asiantaethau lleol i weithio ar faterion anodd. Mae'r rhain yn cynnwys timoedd Cyffuriau ac Alcohol ar gyfer cefnogaeth glinigol a gofal cymdeithasol.